OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 3164 (Cy.275)

TAI, CYMRU

Rheoliadau Cartrefi Symudol (Datganiad Ysgrifenedig) (Cymru) 2007

Gwnaed - - - -	*5 Tachwedd 2007*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*7 Tachwedd 2007*
Yn dod i rym - -	*30 Tachwedd 2007*

O ran Cymru, Gweinidogion Cymru(**1**) yw'r awdurdod cenedlaethol priodol at ddibenion arfer y pwerau a roddwyd gan adran 1(2)(e) o Ddeddf Cartrefi Symudol 1983(**2**), a thrwy arfer y pwerau hynny maent yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cartrefi Symudol (Datganiad Ysgrifenedig) (Cymru) 2007 a deuant i rym ar 30 Tachwedd 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran pob datganiad ysgrifenedig a roddir ar ôl 30 Tachwedd 2007 ynghylch cytundeb—

(a) i osod cartref symudol(**3**) ar safle gwarchodedig(**4**), a

(b) y bydd Deddf Cartrefi Symudol 1983 yn gymwys iddo.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Deddf 1983" ("*the 1983 Act*") yw Deddf Cartrefi Symudol 1983;

ystyr "datganiad ysgrifenedig" ("*written statement*") yw'r datganiad ysgrifenedig y mae'n ofynnol gan adran 1(2) o Ddeddf 1983 i berchennog safle gwarchodedig ei roi i'r darpar feddiannydd.

(**1**) Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (c. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) 1983 p.34. Amnewidiwyd adran 1 gan adran 206(1) o Ddeddf Tai 2004 (p.34). O ran Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r awdurdod gwladol priodol; gweler y diffiniad o "*the appropriate national authority*" yn adran 5(1) o Ddeddf 1983, fel y'i diwygiwyd gan adran 206(3) o Ddeddf 2004.

(**3**) Am y diffiniad o "*mobile home*" *gweler* adran 5(1) o Ddeddf Cartrefi Symudol 1983.

(**4**) Am y diffiniad o "*protected site*" *gweler* adran 5(1) o Ddeddf Cartrefi Symudol 1983.

Datganiad ysgrifenedig: gofynion rhagnodedig

3. Y gofynion y mae'n rhaid i ddatganiad ysgrifenedig gydymffurfio â hwy at ddibenion adran 1(2) o Ddeddf 1983 (yn ychwanegol at ofynion adran 1(2)(a) i (d) o Ddeddf 1983); yw—

(a) bod rhaid iddo gynnwys—

(i) y nodyn sy'n rhagflaenu Rhan 1 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn, a

(ii) y manylion a grybwyllir yn Rhan 1 o'r Atodlen honno (i'r graddau nad ydynt yn ofynnol gan adran 1(2)(a) i (d) o Ddeddf 1983) a Rhannau 2 a 4 o'r Atodlen honno; a

(b) y bydd yn y ffurf a geir yn yr Atodlen honno neu mewn ffurf sylweddol debyg ei heffaith.

Dirymu

4. Dirymir Rheoliadau Cartrefi Symudol (Datganiad Ysgrifenedig) 1983(**5**) o ran Cymru.

Jocelyn Davies
O dan awdurdod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

5 Tachwedd 2007

(**5**) O.S. 1983/749.

YR ATODLEN Rheoliad 3

DATGANIAD YSGRIFENEDIG O DAN DDEDDF CARTREFI SYMUDOL 1983

PWYSIG — DARLLENWCH Y DATGANIAD HWN YN OFALUS A'I GADW MEWN MAN DIOGEL. MAE'N GOSOD Y TELERAU Y BYDD GENNYCH YR HAWL I GADW'CH CARTREFI SYMUDOL AR Y SAFLE ARNYNT AC YN DWEUD WRTHYCH AM YR HAWLIAU A RODDIR I CHI YN ÔL Y GYFRAITH. OS OES UNRHYW BETH NAD YDYCH YN EI DDEALL DYLECH GEISIO CYNGOR (ER ENGHRAIFFT GAN GYFREITHIWR NEU O GANOLFAN CYNGOR AR BOPETH)

RHAN 1

Darpariaethau Rhagarweiniol a Thelerau Datganedig
(ac eithrio'r rhai hynny a bennir yn Rhan 5)

1. Bydd Deddf Cartrefi Symudol 1983 ("Deddf 1983"), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Tai 2004, yn gymwys i'r cytundeb.

Partïon i'r cytundeb

2. Y partïon i'r cytundeb fydd-

. . . . . .

(enw a chyfeiriad meddiannydd y cartref symudol)

. . . . . .

(enw a chyfeiriad perchennog y safle)

Dyddiad cychwyn

3. Bydd y cytundeb yn cychwyn ar .... (mewnosoder y dyddiad)

Manylion y llain

4. Dyma'r manylion am y tir y bydd gennych yr hawl i osod eich cartref symudol arno... . . . .

Plan

5. Mae plan sy'n dangos-

(a) maint a lleoliad y llain;

(b) maint y sylfaen y mae'r cartref symudol i'w osod arno; ac

(c) mesuriadau rhwng pwyntiau gosodedig dynodadwy ar y safle a'r llain a'r sylfaen;

ynghlwm wrth y datganiad hwn.

Buddiant perchennog y safle

6. Bydd ystâd neu fuddiant perchennog y tir yn dod i ben ar . . . .

(Os yw'r datganiad hwn yn gymwys mewnosoder y dyddiad); neu

Bydd caniatâd cynllunio perchennog y safle ar gyfer y safle yn dod i ben ar . . . .

(Os yw'r datganiad hwn yn gymwys mewnosoder y dyddiad);

Mae hyn yn golygu na fydd eich hawl i aros ar y safle yn parhau ar ôl y naill na'r llall o'r dyddiadau hyn oni bai bod buddiant neu ganiatâd cynllunio perchennog y safle yn cael ei ymestyn.

(Os mai dim ond un o'r datganiadau hyn sy'n gymwys, dilëwch y geiriau nad ydynt yn gymwys. Os nad oes yr un o'r datganiadau hyn yn gymwys, dilëwch y paragraff hwn.)

Ffi'r llain

7. Bydd ffi'r llain yn daladwy o . . . . (mewnosoder y dyddiad)

Bydd ffi'r llain yn daladwy bob wythnos/ mis/chwarter/blwyddyn (dilëwch y geiriau nad ydynt yn gymwys)

Ffi'r llain yw . . . .

Mae'r gwasanaethau canlynol wedi'u cynnwys yn ffi'r llain-

Dwr

Carthffosiaeth

. . . .

. . . .

(Dilewch y gwasanaethau nad ydynt wedi'u cynnwys yn ffi'r llain ac ychwanegwch unrhyw wasanaethau eraill sydd wedi'u cynnwys ynddi)

Adolygu ffi'r llain

8. Bydd ffi'r llain yn cael ei hadolygu ar . . . . . .
. . . . (mewnosoder y dyddiad)

Dyma ddyddiad yr adolygiad

Taliadau ychwanegol

9. Codir tâl ychwanegol am y materion canlynol-

. . . . . .

. . . . . .

. . . . . .

(rhestrwch y materion y codir tâl ychwanegol amdanynt)

RHAN 2

Gwybodaeth ynglyn â'ch hawliau

Deddf Cartrefi Symudol 1983

1. Gan y bydd gennych gytundeb â pherchennog safle fydd yn rhoi'r hawl i chi gadw'ch cartref symudol ar ei safle ac i fyw ynddo fel eich cartref, bydd gennych hawliau penodol o dan Ddeddf Cartrefi Symudol 1983, yn effeithio'n enwedig ar ddiogelwch eich tenantiaeth, gwerthu'ch cartref a'r adolygiad o ffi'r llain.

Telerau goblygedig

2. Bydd yr hawliau hyn, sydd wedi'u cynnwys yn y telerau goblygedig a osodir yn Rhan 3 o'r datganiad hwn, yn gymwys yn awtomatig ac ni ellir eu diystyru, cyhyd â bod eich cytundeb yn parhau i fod yn un y mae Deddf 1983 yn gymwys iddo.

Telerau datganedig

3. Os nad ydych yn fodlon ar unrhyw un neu fwy o delerau eich cytundeb arfaethedig (fel a osodir yn Rhan 5 o'r datganiad hwn) dylech eu trafod â'r perchennog, a ddichon gytuno i'w newid.

Yr hawl i herio

4. Os gwnewch y cytundeb ac yna eich bod yn anfodlon â'r telerau datganedig ynddo gellwch eu herio yn y modd a eglurir ym mharagraff 5. Ond rhaid i chi wneud hynny o fewn chwe mis i'r dyddiad y gwnaethoch y cytundeb neu i'r dyddiad y cawsoch y datganiad ysgrifenedig, p'un bynnag yw'r diweddaraf. Os ydych yn dymuno herio'ch cytundeb, efallai y byddech am ymgynghori â chyfreithiwr neu â chanolfan cyngor ar bopeth.